

Pwy sydd fwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned?

(Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 27)

Defnyddir canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14 yma i ymchwilio i'r ffactorau sy'n cyfrannu at roi ymdeimlad cryf o gymuned i unigolyn neu beidio. Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau, felly hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (e.e. ardal awdurdod lleol a bod o ardal wledig) gellir archwilio'r cyswllt rhwng pob ffactor ac ymdeimlad o gymuned yn annibynnol.

Canfyddiadau allweddol

Caiff 'ymdeimlad o gymuned' ei fesur yma drwy ystyried a yw pobl yn cytuno: eu bod yn perthyn i'r ardal leol; bod pobl yn yr ardal sydd o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch.

Wrth reoli ystod eang o ffactorau eraill, mae pobl yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned os ydynt:

- yn dod o ardal wledig;
- yn hŷn;
- yn fodlon iawn ar fywyd ar y cyfan;
- yn siarad Cymraeg;
- yn berchen-feddianwyr; neu
- heb anabledd nac afiechyd hirdymor cyfyngol.

Mae'r awdurdod lleol y mae pobl yn byw ynddo'n gwneud gwahaniaeth hefyd, er enghraifft mae pobl sy'n byw yn Sir Benfro'n fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned na phobl yn Rhondda Cynon Taf.

Ni chanfuom gyswllt rhwng y canlynol ac ymdeimlad o gymuned: statws priodasol; statws economaidd; lefelau cymwysterau; bod â phlant yn yr aelwyd; a bod â mynediad at y rhyngwyd yn yr aelwyd.

1. Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) wedi'i bwriadu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i bennu [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur i ba raddau y mae'r nodau llesiant yn cael eu cyrraedd. Mae'r

adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddangosydd 27: ‘Y ganran o’r bobl sy’n cytuno eu bod yn perthyn i’r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu’n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.

Defnyddir [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) i fesur cynnydd yn erbyn llawer o’r dangosyddion cenedlaethol hyn. Arolwg wyneb yn wyneb, ar raddfa fawr sy’n casglu gwybodaeth fanwl am farn a llesiant pobl ydyw. Fe ymatebodd 14,771 o bobl i arolwg 2013-14. Mae’n darparu gwybodaeth gadarn am farn pobl ynglŷn ag ystod eang o faterion.

2. Mesurau o gydlyniant cymunedol

Er mwyn helpu i archwilio nodweddion pobl ag ymdeimlad cryf o gymuned cyfunwyd canlyniadau tri chwestiwn ar wahân yn yr Arolwg Cenedlaethol, sef:

- “I ba raddau fydddech chi’n cytuno neu’n anghytuno eich bod chi’n perthyn i’ch ardal leol?”
- “I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod yr ardal leol yn rhywle lle mae pobl o wahanol gefndir yn cyd-dynnu’n dda â’i gilydd?”
- “I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r gosodiad yma? Mae pobl yn fy ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.”

Roedd 65% o’r ymatebwyr yn cytuno â phob un o’r tri gosodiad. Mae’r dadansoddiad isod yn canolbwyntio’n bennaf ar yr ymdeimlad o gymuned a fesurwyd yn ôl yr un ffactor cyfunol hwn.

Fe wnaethom hefyd ystyried cytundeb â phob un o’r tri gosodiad ar wahân, er mwyn gweld a yw’r un ffactorau’n effeithio ar bob un o’r tri. Cyflwynir y canlyniadau hyn ar ddiwedd yr adroddiad.

3. Dull o ddadansoddi

I gael dealltwriaeth glir sut y mae pob ffactor unigol yn cyfrannu at y dangosydd, fe ddefnyddion ni dechneg a elwir yn ddadansoddiad atchweliad. Mae dadansoddiad atchweliad yn ein galluogi i archwilio’r cysylltiadau rhwng ffactorau penodol ac ymdeimlad o gymuned.

Er enghraifft, gwyddom fod pobl sy’n ddi-waith yn llai tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned. Fodd bynnag, mae pobl ddi-waith hefyd yn fwy tebygol o fod yn ifanc, ac mae pobl ifanc yn llai tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned. Gall hyn ei gwneud yn anodd gwybod ai oherwydd statws cyflogaeth ynteu oherwydd oedran y mae gan bobl ymdeimlad cryf o gymuned. Unwaith y caiff ffactorau eraill eu rheoli, gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad, mae’n amlwg nad yw statws economaidd, ynddo’i hun, yn effeithio ar y tebygolrwydd o gytuno â’r gosodiadau. Ond mae oedran yn effeithio ar y tebygolrwydd o gytuno â’r gosodiadau, hyd yn oed pan gaiff ffactorau eraill eu hystyried.

Mae’r dadansoddiad o bob ffactor a gyflwynir isod yn rheoli ystod o ffactorau eraill, felly gall y cyswllt rhwng pob ffactor sydd o ddiddordeb gael ei ynysu a’i archwilio. Mae gan yr holl ffactorau yr adroddir arnynt isod gyswllt ystadegol arwyddocaol ag ymdeimlad o gymuned (hynny yw, rydym yn hyderus bod y canfyddiadau hyn yn gadarn ac nid wedi deillio’n syml o amrywioldeb yn amcangyfrifon yr arolwg).

Yn aml gall dadansoddiad atchweliad adnabod perthnasoedd rhwng ffactorau; fodd bynnag, ni all ddweud wrthym am achosiaeth. Er bod achosiaeth yn gymharol glir ar gyfer rhai ffactorau yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol (e.e. nid yw ymdeimlad o gymuned yn achosi newidiadau mewn oedran; mae oedran yn achosi newidiadau mewn ymdeimlad o gymuned), ar gyfer eraill mae'r berthynas rhwng achos ac effaith yn fwy niwlog (gall bodlonrwydd isel ar fywyd achosi ymdeimlad isel o gymuned; gall ymdeimlad isel o gymuned achosi bodlonrwydd isel ar fywyd). Felly, lle nad yw gwybodaeth flaenorol yn gwneud cyfeiriad achosiaeth yn glir rydym wedi nodi'n gyffredinol y gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall (neu'r ddau).

I gael disgrifiad llawn o'r modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad, gweler yr [adroddiad technegol](#) sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.


4. Prif ganfyddiadau: Rhagfynegyddion ar gyfer bod ag ymdeimlad cryf o gymuned

Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd fod y canlynol yn rhagfynegyddion ar gyfer bod ag ymdeimlad cryf o gymuned (h.y. bod rhywun yn cytuno ei fod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndir yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch).

4.1 Nodweddion ymatebwyr

Oedran: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl 70 oed a throsodd sydd fwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (0.76).¹ Mae ymdeimlad o gymuned yn cynyddu gydag oedran, fel a welir yn Ffigur 1².

Ffigur 1: Y cyswllt rhwng oedran ac ymdeimlad o gymuned



Siarad Cymraeg: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, siaradwyr Cymraeg sydd fwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (0.65), fel a welir yn Ffigur 2³.

¹ Byddai tebygolrwydd o 0 yn dynodi tebygolrwydd o 0% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma'n cytuno â phob un o'r tri gosodiad. Byddai tebygolrwydd o 1.0 yn dynodi tebygolrwydd o 100% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma'n cytuno â'r tri gosodiad.)

² Os nad yw'r barrau gwallau ar gyfer pob ymateb fel a ddangosir yn y siartiau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ymatebion yn arwyddocaol yn y cyfwng hyder 0.05. Cyfrifir y cyfyngau hyn ar sail amcangyfrif ar gyfer yr arolwg ac maent yn rhoi ystod y mae'r gwir werth yn debygol o fod oddi mewn iddi. Mewn 95% o samplau'r arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigwr ar gyfer y boblogaeth gyfan. Mae hyn yn golygu y gallwn fod yn hyderus bod gwahaniaeth gwirioneddol yn y boblogaeth gyffredinol – nid yw'r canfyddiad yn debygol o fod o ganlyniad i amrywioldeb yn amcangyfrifon yr arolwg.

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

Ffigur 2: Y cyswllt rhwng bod yn siaradwr Cymraeg ac ymdeimlad o gymuned




Crefydd: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl â chrefydd heblaw Cristnogaeth yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (0.69), fel a welir yn Ffigur 3⁴.

Ffigur 3: Y cyswllt rhwng crefydd ac ymdeimlad o gymuned




Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl â bodlonrwydd canolig neu uchel ar fywyd ar y cyfan yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (0.65) o'i gymharu â'r rhai â bodlonrwydd isel neu isel ar fywyd 4.

Ffigur 4: Y cyswllt rhwng bodlonrwydd ar fywyd ac ymdeimlad o gymuned



Anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl heb anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (0.63) na'r rhai ag anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol (0.6), fel a welir yn Ffigur 5.

Ffigur 5: Y cyswllt rhwng anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol ac ymdeimlad o gymuned




³⁺⁴ Er bod y barrau gwallau'n gorgyffwrdd ychydig, dangosodd profion pellach fod y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

4.2 Tai ac ardal


Deiliadaeth: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, perchen-feddianwyr (0.64) sydd fwyaf tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned. Pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol (0.59) a thai rhent preifat (0.59) oedd leiaf tebygol, fel a welir yn Ffigur 6.

Ffigur 6: Y cyswllt rhwng deiliadaeth ac ymdeimlad o gymuned



Ardal drefol / wledig: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n byw mewn ardal wledig yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned (0.69) na'r rhai sy'n byw mewn ardal drefol (0.6), fel a welir yn Ffigur 7.


Ffigur 7: Y cyswllt rhwng ardal drefol/ wledig ac ymdeimlad o gymuned



Ardal awdurdod lleol: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n byw yn Sir Benfro (0.78) yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned na phobl yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol eraill, fel a welir yn Ffigur 8.

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.


Ffigur 8: Y cyswllt rhwng ardal awdurdod lleol ac ymdeimlad o gymuned



Mae Ffigur 9 yn crynhoi cyfraniad pob ffactor tuag at fod ag ymdeimlad cryf o gymuned.

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

Ffigur 9: Y tebygolrwydd o fod ag ymdeimlad cryf o gymuned ⁴



⁴ Fel yn flaenorol, gellir defnyddio'r barrau gwallau i weld ble y ceir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ymhlith categorïau o bob newidyn: os nad yw'r barrau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn wahaniaeth 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir (nac yn ystyrlon) casglu bod barrau gwallau nad ydynt yn gorgyffwrdd yn golygu bod categori o un newidyn (e.e. pobl 16 – 25 oed) yn rhagfynegi y bydd rhywun yn cytuno â'r gosodiadau'n arwyddocaol wahanol i gategori o newidyn arall (e.e. bod yn siaradwr Cymraeg).

4.3 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig ag ymdeimlad o gymuned

Ni chanfuom gyswilt rhwng y canlynol a bod ag ymdeimlad cryf o gymuned: statws priodasol; statws economaidd; lefelau cymwysterau; bod â phlant yn yr aelwyd; a bod â mynediad at y rhyngwyd yn yr aelwyd.

5. Dadansoddiad o gwestiynau unigol

Gan fod y dangosydd yn cynnwys tri chwestiwn ar wahân, fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar bob cwestiwn ar wahân.

“I ba raddau fyddech chi’n cytuno neu’n anghytuno eich bod chi’n perthyn i’ch ardal leol?”

Roedd 82% o’r bobl yn cytuno â’r gosodiad hwn. Canfuwyd fod y ffactorau canlynol yn bwysig:

Rhagfynegydd (y cryfaf yn gyntaf)	Yn fwyaf tebygol o gytuno â’r gosodiad	Yn lleiaf tebygol o gytuno â’r gosodiad
Ardal Awdurdod Lleol	Blaenau Gwent	Pen-y-bont ar Ogwr
Oedran	70 a throsodd	16 i 29
Statws cyflogaeth ⁵	Di-waith	Economaidd anweithgar
Ardal drefol / wledig	Ardal wledig	Ardal drefol
Gwlad enedigol	Cymru	Lloegr
Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan	Canolig neu uchel	Isel neu isel iawn
Cymhwyster uchaf	Dim cymwysterau	Gradd neu uwch
Deiliadaeth	Perchen-feddianwyr	Tai rhent preifat
Statws Priodasol ⁶	Gweddw	Wedi Ysgaru

“Mae’r ardal leol yn rhywle lle mae pobl o wahanol gefndir yn cyd-dynnu’n dda â’i gilydd”

Roedd 79% o’r bobl yn cytuno â’r gosodiad hwn. Canfuwyd fod y ffactorau canlynol yn bwysig:

Rhagfynegydd (y cryfaf yn gyntaf)	Yn fwyaf tebygol o gytuno â’r gosodiad	Yn lleiaf tebygol o gytuno â’r gosodiad
Ardal Awdurdod Lleol	Sir Benfro	Pen-y-bont ar Ogwr
Oedran	70 a throsodd	16 i 29
Ardal drefol / wledig	Ardal wledig	Ardal drefol
Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan	Canolig neu uchel	Isel neu isel iawn
Anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol	Ddim yn anabl	Anabl

⁵ Mae economaidd anweithgar yn cynnwys y rhai sy’n fyfyrwyr ac yn bensiynwyr.

⁶ Oherwydd niferoedd bach, cafodd y rhai a ymatebodd gan ddweud eu bod mewn partneriaeth sifil o’r un rhyw eu codio fel pobl briod.

“Mae pobl yn fy ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth”

Roedd 82% o'r bobl yn cytuno â'r gosodiad hwn. Canfuwyd fod y ffactorau canlynol yn bwysig.

Rhagfynegydd (y cryfaf yn gyntaf)	Yn fwyaf tebygol o gytuno â'r gosodiad	Yn lleiaf tebygol o gytuno â'r gosodiad
Oedran	70 a throsodd	16 i 29
Ardal Awdurdod Lleol	Sir Benfro	Rhondda Cynon Taf
Ardal drefol / wledig	Ardal wledig	Ardal drefol
Gwlad enedigol	Arall (nid Cymru na Lloegr)	Cymru
Deiliadaeth	Tai rhent preifat	Tai cymdeithasol
Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan	Canolig neu uchel	Isel neu isel iawn
Anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol	Ddim yn anabl	Anabl

Mae'r rhai o ardaloedd gwledig, sy'n 70+ oed, ac sydd â bodlonrwydd canolig neu uchel ar fywyd ar y cyfan yn fwy tebygol o gytuno â phob un o'r gosodiadau. Ar wahân i'r ffactorau cyffredin hyn, roedd ffactorau gwahanol yn bwysig i bob cwestiwn. Ar ben hynny, er bod ardal awdurdod lleol yn rhagfynegydd arwyddocaol ar gyfer cytuno â phob gosodiad, roedd yr ardaloedd a oedd fwyaf tebygol o gytuno / anghytuno yn wahanol ar gyfer cwestiynau gwahanol. Mae hyn yn awgrymu bod y tri datganiad yn mesur agweddau gwahanol ar 'ymdeimlad o gymuned'.

Mae manylion pellach o ran y modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad ar gael yn yr [adroddiad technegol](#) sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Awdur yr adroddiad: Cathryn Knight, Prifysgol Caerdydd



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Lisa Walters

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: lisa.walters@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 025 6685

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-4734-8762-8